

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Aseiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Aseiad Llesiant Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili

CHWEFROR 2022

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Cynnwys

1	Crynodeb gweithredol	3
2	Disgrifiad o Gwm Rhymni Uchaf	5
3	Ynghylch Cwm Rhymni Uchaf	6
4	Llesiant cymdeithasol	7
4.1	Ynghylch y gymuned	7
4.2	Mynd o gwmpas	8
4.3	Mynediad at wasanaethau	10
4.4	Trosedd a diogelwch cymunedol	10
4.5	Amddifadedd	11
4.6	Iechyd	14
4.7	Tai ac aelwydydd	15
5	Llesiant economaidd	17
5.1	Addysg	17
5.2	Gwaith a sgiliau	17
6	Llesiant amgylcheddol	19
7	Llesiant diwylliannol	21
8	Yr hyn y mae ein preswylwyr wedi'i ddweud wrthym	24
	Cyfeiriadau	25

1 Crynodeb gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r asedau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn ar gyfer Cwm Rhymini Uchaf.

Asedau

Mae dwysedd y boblogaeth o fewn yr ardal gymunedol yn sylweddol is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol, sydd i raddau helaeth oherwydd topograffeg yr ardal gymunedol.

Mae'r ardal gymunedol yn elwa o reilffordd uniongyrchol sy'n rhedeg o Rymni i Gaerdydd ac ymlaen i Benarth. Mae pedwar trên yr awr rhwng Bargod a Chaerdydd. Mae gwasanaethau bus rheolaidd i fyny ac i lawr y dyffryn i'r cymunedau llai ac ymlaen i Ferthyr Tudful.

Mae rhywfaint o amrywiad yn y gymhareb prisiau tai i incwm, gyda ward Twyn Carno â'r ffigwr isaf yn y Fwrdeistref Sirol gyfan. Mae hyn yn ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer pobl sengl a phrynwyr tro cyntaf sy'n ceisio cael troed ar yr ysgol dai. Bu datblygiad cyfyngedig gan adeiladwyr tai swmpus yn y blynyddoedd diwethaf ac mae angen datblygiadau marchnad newydd er mwyn arallgyfeirio'r stoc tai a darparu dewis ehangach o eiddo i drigolion lleol.

Mae Parc Coetir Bargod yn fan gwyrdd gwych sydd wedi'i greu o dri chyn lofa yn yr ardal. Mae hefyd yn hawdd ei gyrraedd i'r holl gymunedau lleol o'i amgylch. Mae Parc Cwm Darran yn barc gwledig prydferth ar safle hen Lofa Ogilvie ac mae'n ymgorffori llyn Ogilvie a glan llyn hygyrch i drigolion lleol ac ymwelwyr o ymhellach i ffwrdd.

Roedd trigolion lleol yn gadarnhaol am yr ysbryd cymunedol lleol a dywedasant fod pobl yn gyfeillgar ac yn cydweithio i wneud cymunedau yn lle gwell i fyw, yn enwedig ers pandemig Covid-19. Dywedasant hefyd fod yr amgylchedd ehangach yn lanach ac yn fwy deniadol, gyda llawer o fannau gwyrdd a thirweddau hardd.

Heriau

Mae gan yr ardal gymunedol nifer o heriau sylweddol. Yn gyffredinol, mae cludiant cyhoeddus yn cychwyn yn hwyrach yn y bore ac yn dod i ben yn gynharach gyda'r nos, gan ei gwneud hi'n anodd i weithwyr sifft ac yn effeithio ar allu preswylwyr i gael mynediad i weithgareddau cymdeithasol, sy'n cynyddu'r ddibyniaeth ar geir. Er bod darpariaeth band eang yn dda ar y cyfan ledled yr ardal gymunedol, mae cost yn broblem sylweddol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig fel Cwm Rhymini Uchaf.

Roedd gan bron bob ACEHI yn yr ardal gymunedol gyfraddau troseddau difrod troseddol sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd gan fwyafrif yr ACEHI hefyd gyfraddau uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer mathau eraill o droseddau megis troseddau treisgar, ymddygiad gwrthgymdeithasol a byrgleriaeth. Yn ogystal, roedd gan bron bob ACEHI gyfradd mynychder tân a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae nifer sylweddol o ACEHI o fewn yr ardal gymunedol sydd yn y categori mwyaf difreintiedig ar draws sawl parth gwahanol – rhannau o Aberbargod, Bargod, Cwm Darren, Moriah, Tredegar Newydd a Thwyn Carno.

Roedd gan bron bob ACEHG yn yr ardal gymunedol gyfradd marwolaethau pob achos yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac roedd gan bob ACEHG gyfradd marwolaethau cynamserol yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal, roedd disgwyliad oes iach ar gyfer dynion a merched yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ym mhob ward. Mae lefel salwch tymor hir neu anabledd bron ddwywaith cyfartaledd Cymru.

Dywedodd rhai trigolion lleol wrthym eu bod yn pryderu am ddiogelwch cymunedol mewn perthynas â materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwefr yrru a chymryd cyffuriau. Dywedasant fod angen mwy o gyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer cymunedau, megis canolfannau dydd, hybiau cymunedol a phrosiectau ieuenticid. Roeddent hefyd yn teimlo bod cludiant cyhoeddus yn lleol yn wael a bod diffyg gwasanaethau a siopau lleol, ynghyd â mynediad gwael i feddygfydd ac ysbytai. Roeddent eisiau mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus i helpu i lywio penderfyniadau a wneir am wasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal gymunedol, a nodwyd bod

Aseiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

unigolion yn fodlon bod yn gynrychiolwyr ar gyfer eu cymunedau lleol yn y trafodaethau hyn.

2 Cwm Rhymni Uchaf

Mae ardal gymunedol Cwm Rhymni Uchaf (CRhU) yn cynnwys wardiau **Twyn Carno, Moriah, Cwm Darran, Tredegar Newydd, Pontlotyn, Bargod, Aberbargod a Gilfach**. Mae'r ardal yn cynnwys aneddiadau bach yr hen ddiwydiant glo ar hyd llinell Afon Rhymni a'i hisafon, Nant Bargod Rhymni. Ar y cyfan mae llethrau serth i'r cymoedd ond maent yn ehangu'n llwyfandir ym Mlaenau'r Cymoedd.

Bargod yw'r brif dref ac mae Rhymni yn ganolfan leol. Mae Bargod wedi elwa ar arian adfywio helaeth sydd wedi darparu ffordd osgoi Ffordd yr Angel, gwelliannau i gludiant cyhoeddus, gwelliannau i'r strydlyn ar hyd y stryd fawr a gwell cysylltiadau i gerddwyr. Mae safle manwerthu Llwyfandir Datblygu Bargod yn cynnwys archfarchnad fawr a sawl uned siop lai, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu meddiannu gan fanwerthwyr cenedlaethol. Mae Capel Ffordd Hanbury yn ased cymunedol amlbwrpas sy'n cyfuno man addoli, llyfrgell a chanolfan adnoddau.

Ffigur 1: Llyfrgell Bargod



Mae canolfan leol **Rhymni** yng ngogledd yr ardal gymunedol. Mae'r dref yn ddibynnol iawn ar fasnachwyr annibynnol lleol, ac ar hyn o bryd mae ganddi gynnig manwerthu cyfyngedig. Mae gan y dref Ganolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig sy'n gwasanaethu anghenion iechyd trigolion gogledd y Fwrdeistref Sirol.

Mae adfywio yn ardal Tredegar Newydd wedi arwain at ddatblygu ysgol gymunedol, gwelliannau amgylcheddol, seilwaith ffyrdd newydd, a darparu unedau diwydiannol. Mae Tredegar Newydd hefyd yn gartref i Amgueddfa'r Tŷ Weindio, sy'n canolbwyntio ar y peiriant weindio Fictoraidd. Defnyddiwyd y peiriannau hyn i weithredu'r cewyll a oedd yn cludo dynion a glo yn ôl a blaen i'r pwll islaw, ac mae'r cyfleuster hefyd yn dod ag arteffactau mwyngloddio lleol a chenedlaethol ynghyd i'w harddangos. Mae'r Tŷ Weindio hefyd yn gartref i Hyb Sector Cyhoeddus, i annog cydweithredu rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae Canolfan Adnoddau White Rose gerllaw hefyd yn gartref i'r llyfrgell ac yn darparu gwasanaethau i drigolion lleol.

Ffigur 2: Peiriant Tŷ Weindio, Tredegar Newydd

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

3 Ynghylch Cwm Rhymni Uchaf

Ardal	58.0 km ² – tua 21% o gyfanswm arwynebedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sef 278km ²															
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 28,510 – tua 15.7% o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef 181,731 ¹ .															
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd y boblogaeth yw 3.58 o bobl yr hecтар, ac ACEHI Aberbargod 2, Gilfach a Phontlotyn sydd â'r poblogaethau uchaf. Mae 6.53 o bobl yr hecтар ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ² .															
Anheddau 	Y cyfrif anheddau yw 13,002 – tua 16.2% o gyfanswm nifer yr anheddau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 80,149 ³ .															
Cyffredinol	<p>Mae Cwm Rhymni Uchaf yn cynnwys 4 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG), sy'n cynnwys 18 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a all effeithio ar les.</p> <table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr style="background-color: black; color: white;"> <th style="width: 33%;">ACEHI</th> <th colspan="2" style="width: 67%;">ACEHGau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Aberbargod 1 a 2</td> <td>Moriah 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 001</td> </tr> <tr> <td>Bargod 1, 2, 3 a 4</td> <td>Tredegar Newydd 1, 2 & 3</td> <td>Caerffili 002</td> </tr> <tr> <td>Cwm Darran 1 a 2</td> <td>Pontlotyn</td> <td>Caerffili 003</td> </tr> <tr> <td>Gilfach</td> <td>Twyn Carno 1 & 2</td> <td>Caerffili 004</td> </tr> </tbody> </table>	ACEHI	ACEHGau		Aberbargod 1 a 2	Moriah 1, 2 a 3	Caerffili 001	Bargod 1, 2, 3 a 4	Tredegar Newydd 1, 2 & 3	Caerffili 002	Cwm Darran 1 a 2	Pontlotyn	Caerffili 003	Gilfach	Twyn Carno 1 & 2	Caerffili 004
ACEHI	ACEHGau															
Aberbargod 1 a 2	Moriah 1, 2 a 3	Caerffili 001														
Bargod 1, 2, 3 a 4	Tredegar Newydd 1, 2 & 3	Caerffili 002														
Cwm Darran 1 a 2	Pontlotyn	Caerffili 003														
Gilfach	Twyn Carno 1 & 2	Caerffili 004														

Allwedd:

Llinell Las – ffin ACEHI

Llinell Goch – ffin ACEHG

Ffigur 3: Map o Gwm Rhymni Uchaf

4 Llesiant cymdeithasol

4.1 Ynghylch y gymuned

Yn gyffredinol, cynyddodd poblogaeth amcangyfrifedig Cwm Rhymni Uchaf o tua 192 o drigolion, o 28,510 yng Nghyfrifiad 2011 i 28,318 yn 2020⁴(+0.7%), o'i gymharu â chynnydd o 3.5% yng Nghymru gyfan. Gwelodd hanner yr 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gynnydd yn eu poblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf yn Aberbargod 1 (cynnydd o 18.2% neu 280 o bobl). Gwelodd gweddill yr ACEHI ostyngiad yn eu poblogaeth dros y cyfnod amser, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Nghwm Darran 2 (gostyngiad o 6.2% neu 78 o bobl).

Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol. Yn anffodus, nid yw rhagamcanion poblogaeth ar gael islaw lefel y Fwrdeistref Sirol, felly mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys isod.

Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2.0% rhwng 2019 a 2043⁵, i 186,991. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â thueddiadau diweddar, lle cynyddodd y boblogaeth 5.4% rhwng cyfrifiadau 1991 a 2011.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gostwng 7.4% rhwng 2019 a 2043, sy'n debyg yn fras i gyfartaledd Cymru o 8.0%⁶. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf hyd at 2028 ac yn dilyn hynny rhagwelir y bydd y ffigur yn aros yn weddol gyson, sef tua 31,000. Gallai hyn olygu 2,521 yn llai o bobl yn yr ystod oedran hon ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng 3.1% rhwng 2019 a 2043 (o'i gymharu â gostyngiad o 2.1% yng Nghymru gyfan), gyda gostyngiad eithaf cyson yn cael ei ragamcanu dros y

cyfnod amser. Gallai hyn olygu 3,487 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043⁷.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 27.2% rhwng 2019 a 2043, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 28.7%⁸. Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gallai hyn olygu 9,653 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043⁹. Mae'r ffigur hwn 61% yn uwch na'r gostyngiad rhagamcanol cyfunol yn ffigurau'r boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 erbyn 2043¹⁰.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 82.6% rhwng 2019 a 2043, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 69.5%. Ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gallai hyn olygu 3,145 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043¹¹.

Yn sicr, mae llawer o fanteision posibl i lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedol yn sgil pobl sy'n byw'n hirach.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gallai fod galw uwch am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth oedrannus, wrth i'r duedd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu wrth i ni fynd yn hŷn.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd angen tai priodol sy'n diwallu eu hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 ar gael eto, ond yng Nghyfrifiad 2011:

Cymry Cymraeg

Gallai 19.1% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf siarad rhywfaint o Gymraeg, ychydig yn is na ffigur Bwrdeistref Sirol Caerffili (22.2%) ond yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 37.8%.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Gwlad geni	Ganed 92% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf yng Nghymru, sy'n uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 88.6% ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7% ¹² .
Ethnigrwydd	Roedd 98.7% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf o ethnigrwydd Gwyn, ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 98.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.6% ¹³ .
Crefydd	Roedd 48.4% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf yn nodi Cristnogaeth fel eu crefydd, ychydig yn is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 50.7% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 57.5% ¹⁴ .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i warchod diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.2 Symud o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amrywiaeth o resymau yng Nghwm Rhymni Uchaf a thu hwnt; ar gyfer hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynychu addysg neu waith, i symud nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna deithwyr i'r ardal hefyd, fel y rhai sy'n gweithio yn yr ystadau diwydiannol neu'r siopau a'r swyddfeydd, a'r rhai sy'n ymweld at ddibenion twristiaeth neu'n mwynhau'r cefn gwlad hyfryd.

Mae **rheilffordd Cwm Rhymni** yn darparu cysylltiadau uniongyrchol i'r de drwy'r Fwrdeistref Sirol i Gaerdydd, gyda gorsafoedd wedi'u lleoli yn Rhymni, Pontlotyn, Tredegar Newydd, Bargod a Gilfach. O Rymni ychydig dros awr yw'r amser teithio i Gaerdydd, gydag un trê'n yn gweithredu bob awr, sy'n cyfyngu ar hygyrchedd o ogledd eithaf y Fwrdeistref Sirol. Mae pedwar trê'n yr awr yn rhedeg o orsaf Bargod.

Mae **Metro De Cymru** yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), gan drawsnewid gwasanaethau trê'n a bws yn ogystal â beicio a cherdded. Mae Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi £750 miliwn i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd. I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Metro, ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru [Metro De Cymru | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](https://trc.cymru).

Mae gwasanaethau bws yn gweithredu'n rheolaidd i fyny ac i lawr y cwm, a hefyd ymlaen i Ferthyr Tudful, ond y brif broblem gyda'r holl wasanaethau cludiant cyhoeddus yng Nghwm Rhymni Uchaf yw eu bod yn cychwyn yn hwyrach yn y bore ac yn gorffen yn gynharach gyda'r nos, gan ei gwneud yn anodd i weithwyr sifft yn arbennig i ddefnyddio cludiant cyhoeddus

Gall trafndiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ag incwm isel neu gyfyngedig, a gall prisiau uchel wneud cludiant cyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. Gall lleihau costau cludiant helpu i gynyddu incwm gwario a helpu i leihau tlodi mewn gwaith.

Mae nifer fach o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yng Nghwm Rhymni Uchaf ym Mharc Cwm Darran, Tirphil a Bargod¹⁵. Mae llawer o'r stoc dai yng Nghwm Rhymni Uchaf yn dai teras nodweddiadol, nad oes ganddynt fynediad i barcio oddi ar y ffordd yn aml. Gallai hyn gyfyngu ar y defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol oherwydd gallai gwefru fod yn broblemus. Y

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

gobaith yw y bydd datblygiadau yn y dyfodol mewn cyfleusterau gwefru trydan yn helpu i ddatrys y mater hwn.

Gall cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus wneud cyfraniad pwysig at anghenion cludiant lleol, tra hefyd helpu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir.

Gall llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig y rhai sy'n darparu potensial cymudo, helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw, fodd bynnag mae llawer o Gwm Rhymni Uchaf yn serth iawn, a all olygu heriau symudedd i rai. Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis teithio'n llesol, fel y gallant gadw'n iachach yn eu henaint. Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i deithio ar hyd ffyrdd serth yr ardal.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer ohonom yn **cerdded ac yn beicio mwy** ac yn gwerthfawrogi gwerth ein mannau gwyrdd lleol.

Mae **Llwybr 468 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** yn rhedeg o Bengam i'r gogledd (ychydig i'r de o Gilfach) i Dredegar Newydd, gan ffurfio rhan o'r rhwydwaith sy'n datblygu ar hyd Cwm Rhymni. Mae'r llwybr yn rhedeg ar hyd hen reilffordd yn rhan gulaf Cwm Rhymni sy'n ardal goediog gan fwyaf (mae bwlch yn y llwybr rhwng Abertyswg a Thredegar Newydd).

Mae **Llwybr 469** yn cysylltu Bargod a Fochriw a hefyd yn defnyddio trac rheilffordd segur. Mae'r llwybr yn cysylltu â phentref Deri a Pharc Cwm Darran.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn cyrchu gwasanaethau ar-lein, ond mae rhai mathau o waith na ellir eu gwneud o bell nac yn ddigidol, megis gwaith ffatri neu fanwerthu. Efallai na fydd angen i genedlaethau'r dyfodol deithio cymaint i'r gwaith.

Mynediad band eang



Mae gan y mwyafrif helaeth o gartrefi yng Nghwm Rhymni Uchaf fynediad at fand eang o 30Mb/s o leiaf, er bod yna rai mannau lle mae mynediad yn waeth, megis Cwm Darran 1 (9.1% heb fynediad at y cyflymder hwn) a Bargod 4 (6.5%)¹⁶.

Er bod hygyrchedd band eang yng Nghwm Rhymni Uchaf yn dda ar y cyfan, mae fforddiadwyedd band eang yn llawer mwy o broblem i'r rheini sydd ar incwm isel neu gyfyngedig. Gall llythrennedd digidol gwael hefyd fod yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau o fewn y gymuned.

Efallai y bydd cymunedau'r dyfodol yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog ac efallai y bydd mwy o bobl ddefnyddio technolegau newydd fel 5G ac ati.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gweithio gartref a mynediad ar-lein i wasanaethau yn drefniant parhaol am y dyfodol rhagweladwy, neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w mannau gwaith neu'n dewis cyrchu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mewn gwirionedd mae'n debygol y bydd cyfuniad o ryngweithio ar-lein, o bell ac yn bersonol.

Yn y dyfodol bydd angen i Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan (gan gynnwys Cwm Rhymni Uchaf) fod yn seibr-ddiogel ac yn ddigidol gynhwysol.

4.3 Mynediad i wasanaethau



Bargod yw prif dref Cwm Rhymni Uchaf ac mae **Rhymni** yn ganolfan leol, a bydd trigolion yn teithio o ardaloedd cyfagos i'r trefi hyn i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Bydd rhai trigolion hefyd yn teithio i'r gogledd o'r Fwrdeistref Sirol i Ferthyr Tudful ac ymhellach.

Math o ased	Rhif
Ysgol Gynradd	15
Ysgol Uwchradd	2
Llyfrgelloedd	5
Canolfannau hamdden	1
Canolfan gymunedol	11
Banciau	1
Swyddfa Bost	6
Parciau gwledig	2
Gwarchodfa Natur Genedlaethol	1

Ym **Margod** ceir archfarchnad fawr (Morrison's) a chynnig manwerthu da, er bod llawer o fanwerthwyr cenedlaethol wedi gadael y stryd fawr oherwydd pandemig Covid-19 a'r newid mewn arferion siopa h.y. y symud i brynu ar-lein. Mae gan Fargod hefyd un gangen banc.

Mae gan **Rymni** gynnig manwerthu cyfyngedig sy'n cynnwys manwerthwyr annibynnol yn bennaf.

Mae gan Gwm Rhymni Uchaf hefyd nifer o ganghennau Swyddfa'r Post yn y pentrefi llai, sy'n cynnig mynediad amgen at wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banc.

Mae gan Gwm Rhymni Uchaf nifer fawr o ysgolion cynradd yn y gwahanol bentrefi a dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Heolddu ym Margod (11-18 oed) ac Ysgol Idris Davies (3-18 oed).

Mae gan Gwm Rhymni Uchaf Hyb Llyfrgell ym Margod, Llyfrgell y Dref yn Rhymni, Llyfrgell Bentref yn Nhredegar Newydd a Llyfrgelloedd Cysylltiedig â'r Gymuned yn Aberbargod a Deri.

Mae Canolfan Hamdden Heolddu wedi'i lleoli ym Margod ger Ysgol Gyfun Heolddu ac mae'n darparu ystod o gyfleusterau gan gynnwys pwll nofio, ystafelloedd ffitrwydd a dosbarthiadau ymarfer grŵp.

4.4 Trosedd a diogelwch cymunedol

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i gael mynediad at wasanaethau neu gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Roedd gan 17 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gyfraddau **Difrod Troseddol** uwch na chyfartaledd Cymru, sef 1.14 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan dair ACEHI (Tredegar Newydd 1, Tredegar Newydd 3 a Moriah 3) gyfraddau dros dair gwaith yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Difrod Troseddol¹⁷.

Roedd gan 15 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gyfradd **Troseddau Treisgar** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan ddwy ACEHI (Bargod 4 a Thredegar Newydd 1) gyfraddau dros ddwywaith yn fwy na chyfartaledd Cymru ar gyfer Troseddau Treisgar¹⁸.

Roedd gan 13 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gyfradd droseddau **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.55 o

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Dim ond un ACEHI (Tredegar Newydd 1) oedd â chyfradd 75% yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol¹⁹.

O ran **Byrgleriaeth** roedd cyfradd 15 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 0.98 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan Moriah 3 gyfradd Byrgleriaeth o bron i bedair gwaith cyfartaledd Cymru (3.80) ac roedd gan ddau ACEHI arall (Moriah 2 a Thwyn Carno 2) gyfraddau dros ddwbl cyfartaledd Cymru ar gyfer Byrgleriaeth²⁰.

Roedd gan 10 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gyfradd **Lladrata** uwch na chyfartaledd Cymru, sef 0.53 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan Dwyn Carno 2 gyfradd Lladrad dros chwe gwaith cyfartaledd Cymru (3.25) ac roedd gan ddwy ACEHI arall (Moriah 2 a Moriah 3) gyfraddau dros ddwbl cyfartaledd Cymru ar gyfer Lladrata.

Roedd gan 17 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf gyfradd **Achosion Tân** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.38 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan bedair ACEHI (Tredegar Newydd 3, Twyn Carno 2, Moriah 3 a Chwm Darran 1) gyfraddau deirgwaith yn fwy na chyfartaledd Cymru ar gyfer Achosion Tân²¹.

Bydd mynd i'r afael ag achosion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi mwy o gydlyniant yng nghymunedau Cwm Rhymni Uchaf.

4.5 Amddifadedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny (mewn ardal ddaearyddol ACEHI), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, ynghyd ag amddifadedd cyffredinol. Mae MALIC yn rhestru holl ACEHI Cymru o'r mwyaf (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909).

Mae safleoedd parth MALIC ar gael ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r ACEHI sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig yng Nghwm Rhymni Uchaf, ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol a rhai parthau penodol.

Amddifadedd cyffredinol	Mae chwech ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol - Aberbargod 2, Bargod 4, Cwm Darran 2, Moriah 3, Tredegar Newydd 3 a Thwyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghwm Rhymni Uchaf ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol, safle 8 yng Nghymru gyfan
Parth Iechyd	Mae saith ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Iechyd – Bargod 4, Cwm Darran 2, Moriah 2, Moriah 3, Tredegar Newydd 2, Tredegar Newydd 3 a Thwyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn yr ardal. Cwm Rhymni Uchaf ar gyfer y Parth Iechyd (safle 25) ac yna Bargod 4 (safle 29)
Parth Diogelwch Cymunedol	Mae hanner yr ACEHI yn y 10% o'r categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Addysg. Y tri ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf sydd â'r rhengoedd uchaf ar gyfer y parth hwn yw Tredegar Newydd 1 (safle 25), Moriah 3 (safle 27) a Thredegar Newydd 3 (safle 41)
Parth Incwm	Mae pump ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Incwm - Aberbargod 2, Bargod 4, Moriah 3, Tredegar Newydd 3 a Thwyn

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghwm Rhymni Uchaf ar gyfer y Parth Incwm (safle 21), ac yna Bargod 4 (safle 23)

Parth Cyflogaeth

Mae wyth ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Cyflogaeth - Aberbargod 2, Bargod 4, Cwm Darran 2, Moriah 2, Moriah 3, Tredegar Newydd 3, Pontlotyn a Thwyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghwm Rhymni Uchaf ar gyfer y Parth Cyflogaeth (safle 8).

Mae tabl sy'n dangos y safleoedd parth ar gyfer pob ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf i'w weld ar dudalen 12. Mae hyn yn amlygu bod lefelau sylweddol o amddifadedd mewn rhai mannau ledled Cwm Rhymni Uchaf, ac amddifadedd lluosog ar draws gwahanol barthau mewn nifer o ACEHI.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Cwm Rhymni Uchaf									
Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Aberbargod 1	349	426	286	349	233	764	877	318	1280
Aberbargod 2	177	162	139	210	282	1335	149	180	1297
Bargod 1	538	626	381	300	778	1049	1038	297	1464
Bargod 2	704	711	553	623	871	1861	551	129	1035
Bargod 3	456	635	422	486	341	1539	153	248	954
Bargod 4	29	23	18	29	161	343	765	146	1613
Cwm Darran 1	832	958	819	682	816	860	219	712	1731
Cwm Darran 2	137	338	98	71	50	736	606	621	1526
Gilfach	482	576	248	501	710	1182	514	464	1096
Moriah 1	391	497	331	230	221	1657	476	863	976
Moriah 2	228	368	122	189	477	1464	582	70	310
Moriah 3	67	137	44	186	62	562	552	27	629
Tredegar Newydd 1	578	768	594	538	651	1204	421	25	1299
Tredegar Newydd 2	246	348	308	188	280	383	279	241	1369
Tredegar Newydd 3	59	73	83	77	104	367	222	41	1075
Pontlotyn	315	370	180	447	258	1079	843	219	1013
Twyn Carno 1	8	21	8	25	9	510	1198	148	450
Twyn Carno 2	473	509	303	642	817	1075	1059	71	426

Safle MALIC 1-1909
1-191: 10% mwyaf difreintiedig
192-382: 11-20% mwyaf difreintiedig
383-573: 21-30% mwyaf difreintiedig
574-955: 31-50% mwyaf difreintiedig
956-1909: 50% lleiaf difreintiedig

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

4.6 Iechyd

Mae iechyd da yn agwedd bwysig ar les pob unigolyn ym mhob cymuned, ond mae cyfres benodol o heriau yng Nghwm Rhymni Uchaf mewn perthynas â chyflogaeth, cludiant, tai, cyflawniad addysgol a lefelau amddifadedd sy'n debygol o gael effaith ar iechyd, ac o bosibl cyfrannu at neu gael ei achosi gan iechyd gwael.

Er bod iechyd hunangofnodedig yn dda, mae cyfradd y marwolaethau cynamserol yn sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru ac mae gan 30.2% o'r bobl sy'n byw yng Nghwm Rhymni Uchaf salwch cyfyngus hirdymor.

Salwch cyfyngus hirdymor	Dywedodd 30.2% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd eu hiechyd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 25.4% ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a 22.7% yng Nghymru gyfan ²² .
Cyfradd marwolaethau pob achos	Roedd y gyfradd marwolaethau pob achos yn ACEHG Cwm Rhymni Uchaf ar gyfer y cyfnod 2017-19 rhwng 1022.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 002 (Tredegar Newydd a Chwm Darran) a 1437.6 yng Nghaerffili 004 (Bargod), o'i gymharu â chyfraddau cyfartalog Bwrdeistref Sirol Caerffili (Bargod)(1103.7) a Chymru (1031.2) ²³ .
Marwolaethau cynamserol	Mae cyfradd marwolaethau cynamserol (o dan 75) yng Nghwm Rhymni Uchaf yn amrywio rhwng 454.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 003 (Aberbargod a Gilfach) a 515.5 yng Nghaerffili 001 (Rhymni, Pontlotyn ac Abertyswg). Mae'r gyfradd ym mhob ACEHG yn

	sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru yw (382.4) ²⁴ .
Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion a gofnodwyd â chyflwr cronig gan feddyg teulu yng Nghwm Rhymni Uchaf yn amrywio o 16.9% yng Nghaerffili 003 (Aberbargod a Gilfach) i 18.4% yng Nghaerffili 002 (Tredegar Newydd a Chwm Darren). Mae'r ganran ym mhob ACEHG yng Nghwm Rhymni Uchaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.3%.
Cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion â chyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu yng Nghwm Rhymni Uchaf yn amrywio o 24.6% yng Nghaerffili 003 (Aberbargod a Gilfach) i 28.3% yng Nghaerffili 001 (Rhymni, Pontlotyn ac Abertyswg). Unwaith eto, mae'r ganran ym mhob ACEHG yng Nghwm Rhymni Uchaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 23.2%.

Gall disgwyliad oes a disgwyliad oes iach amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn ardaloedd cymharol fach, yn enwedig lle mae cymysgedd o ardaloedd mwy difreintiedig a llai difreintiedig. Yng Nghwm Rhymni Uchaf, ar gyfer dynion adeg geni roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 51.1 mlynedd yn ward Moriah i 54.3 o flynyddoedd yn ward Cwm Darren, sef bwlch o 3.2 mlynedd. Roedd y ffigurau ar gyfer pob ward yng Nghwm Rhymni Uchaf yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer menywod, roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 52.4 mlynedd yn ward Aberbargod i 56.0 mlynedd yn ward Gilfach, sef bwlch o 3.6 mlynedd. Unwaith eto, ar gyfer pob ward roedd y ffigurau'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru²⁵.

Bydd mynd i'r afael â phrif achosion marwolaeth a salwch cynamserol, gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach, drwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu llesiant meddwl, yn helpu i greu Cwm Rhymni Uchaf iachach.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Mae **Rhwydweithiau Lles Integredig (RhLII)** yn ymwneud â chydweithio'n well ac yn fwy effeithiol, i gefnogi llesiant cymunedol er mwyn parhau i wella iechyd a llesiant ein cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn cynnwys partneriaid statudol, trydydd sector a chymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi a chryfhau llesiant yn ein cymunedau wrth i'r sefyllfa bresennol esblygu a ninnau i gyd addasu i fywyd ar ôl Covid-19.

Mae tair ardal o ffocws RhLII yng Nghwm Rhymni Uchaf – Cwm Bargod a Darran, Tredegar Newydd a Rhymni. I gael rhagor o wybodaeth am waith RhLII, ewch i'r wefan hon [Integrated Wellbeing Networks Gwent \(iwngwent.wales\)](http://Integrated Wellbeing Networks Gwent (iwngwent.wales)).

Yr ysbytai agosaf i Gwm Rhymni Uchaf yw Ysbyty Ystrad Fawr (Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell) ac Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful (Damweiniau ac Argyfwng 24 awr), er bod hyn o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange wedi'i leoli yng Nghwmbrân (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) ac mae'n darparu Gwasanaethau Arbenigol, Trawma a Gofal Critigol ar gyfer Gwent gyfan.

Mae **Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhymni** yn dod â nifer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, gan ei gwneud yn llawer mwy cyfleus i drigolion lleol gael mynediad at wasanaethau ac i staff weithio mewn ffordd integredig i ddarparu'r gofal gorau. Mae'r ganolfan yn cynnwys dwy feddygfa, deintydd, optegydd, fferyllfa, Canolfan Ddydd Gwasanaethau Cymdeithasol, a chlinigau cymunedol ac allanol.

Dywedodd 30.9% o drigolion Cwm Rhymni Uchaf fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 25.2% ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a chyfartaledd o 22.2% yng Nghymru gyfan²⁶.

4.7 Tai ac aelwydydd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Cwm Rhymni Uchaf yw sicrhau bod y math iawn o dai ar gael i gefnogi anghenion y gymuned.

Os caiff tai'r dyfodol eu gwella o ran effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon. Bydd angen i gartrefi'r dyfodol allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu yn awr yn etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol.

Stoc tai	Mae 55.8% o eiddo yng Nghwm Rhymni Uchaf yn dai teras o gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 36.1% ar gyfartaledd Cymru o 27.8%. Roedd 25.9% o eiddo yn y categori tai pâr, o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 39.2% a chyfartaledd Cymru o 31%.
Band treth y cyngor	Mae mwyafrif helaeth y tai yng Nghwm Rhymni Uchaf (87.3%) yn cael eu graddio o fewn band Treth y Cyngor A neu B (y categorïau tai â'r gwerth isaf), o'i gymharu â ffigur o 52.9% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan.
Daliadaeth	Mae 62.6% o dai yng Nghwm Rhymni Uchaf yn eiddo llwyr neu gyda morgais, o gymharu â ffigur o 69.3% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 67.4% yng Nghymru. Mae 25% yn cael ei rentu gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, o gymharu â 18.7% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 16.4% yng Nghymru.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Ym MALIC 2019, roedd gan 12 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (5.5%) o bobl yn byw ar aelwydydd gorllawn, ac roedd gan Aberbargod 2, Moriah 3 a Bargod 4 ganrannau dros 10%.

Roedd gan 11 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (19.7%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael, a phump ACEHI (Bargod 3, Tredegar Newydd 1, Tredegar Newydd 2, Cwm Darran 1 a Bargod 2) oedd â chanran dros un a hanner yn uwch na chyfartaledd Cymru²⁷.

Roedd gan 11 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (18%) ar gyfer tebygolrwydd y byddai tai yn cynnwys peryglon difrifol, a phump ACEHI (Bargod 3, Tredegar Newydd 1, Tredegar Newydd 2, Bargod 2 a Chwm Darran 1) â chanran dros un a hanner yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Roedd gan 12 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) ar gyfer y tebygolrwydd y byddai tai mewn cyflwr gwael, ac roedd gan ddwy ACEHI (Bargod 3 a Thredegar Newydd 1) ganran o leiaf ddwywaith canran cyfartaledd Cymru gyfan.²⁸

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn gyfres o safonau y mae'n rhaid i bob cartref Cyngor a Chymdeithas Tai yng Nghymru eu bodloni. Mae'r safon yn nodi y dylai pob cartref fod mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'i wresogi'n ddigonol, yn gyfoes o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi, wedi'i reoli'n dda, mewn amgylcheddau deniadol a diogel ac yn addas ar gyfer aelwydydd penodol. Gan fod y Cyngor wedi cadw ei stoc tai, mae'n gyfrifol am godi'r stoc i'r safon hon.

Mae tua £260 miliwn wedi'i wario ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y blynyddoedd diwethaf i gyrraedd y safon hon. Mae gwaith mewnol wedi cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol newydd. Mae gwaith allanol wedi cynnwys drysau newydd, ffenestri,

landeri/pibellau dŵr ac ail-doi eiddo. Mae rhaglen gwella amgylcheddol hefyd wedi'i chyflwyno fel rhan o SATC, sy'n edrych ar ardaloedd y tu allan i gwrtil tai cyngor.



Mae amrywiad sylweddol yn y cynnydd canolrifol yn y prisiau a dalwyd am dai mewn gwahanol wardiau yng Nghwm Rhymni Uchaf rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021. Yn ward Aberbargod mae'r pris canolrifol wedi cynyddu 77.5% i £157,998, ac yn ward Bargod cynyddodd y pris canolrifol 33.5% i £117,500. Mewn gwrthgyferbyniad, cynyddodd pris canolrifol ward Twyn Carno 4.3% yn unig i £86,000²⁹.

Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw £29,289, sy'n golygu bod y gymhareb pris tŷ i incwm dros 5:1 yn ward Aberbargod, ond yn llai na 3:1 yn ward Twyn Carno. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i berson sengl wario dros 5 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo yn ward Aberbargod, sy'n debygol o olygu bod llawer o bobl sengl yn cael eu hatal rhag prynu eiddo heb gymorth, megis cymorth gan y teulu neu berchnogaeth a rennir.

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y galw. Nodweddir Cwm Rhymni Uchaf yn gyffredinol gan brisiau tai a gwerthoedd rhentu is o'i gymharu ag ardaloedd cymunedol eraill.

Bu datblygiad cyfyngedig hefyd gan adeiladwyr tai mawr yn yr ardal hon yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod cyfnod 15 mlynedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig, dim ond 8% o'r holl ddatblygiadau tai ar safleoedd mawr (10 annedd neu fwy) a ddarparwyd yn yr ardal hon, (sy'n cyfateb i 347 o unedau yn unig. Mae angen datblygiad marchnad sector newydd yn yr ardal i arallgyfeirio'r stoc tai a darparu dewis ehangach o fathau o eiddo ar gyfer trigolion Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2018 yn dangos gofyniad ychwanegol ar gyfer datblygu tai cymdeithasol un ystafell wely, anghenion cyffredinol a gofyniad bach ar gyfer perchentyaeth tai cost isel.

5 Llesiant economaidd

5.1 Addysg

Gall profiadau plentyndod bennu datblygiad hirdymor a chyflawniadau bywyd cyffredinol.

Ar gyfer Cwm Rhymni Uchaf, mae parth Addysg MALIC 2019 yn dangos y canlynol:

Parth Addysg	Mae pump ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y parth Addysg - Bargod 4, Cwm Darran 2, Moriah 3, Tredegar Newydd 3 a Thwyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghwm Rhymni Uchaf ar gyfer y parth Addysg (safle 9 o 1909 yng Nghymru).
---------------------	---

Mae gan Dwyn Carno 1 hefyd gryndiad uchel o sawl parth gwahanol o amddifadedd - amddifadedd cyffredinol ynghyd ag Incwm, Cyflogaeth, lechyd a Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn dweud wrthym y gallai ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad addysgol rhwng unigolion a chymunedau.

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor.

Mae'r data'n dangos bod cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch yn amrywio rhwng 12.9% ym Margod 4 a 40.4% ym Moriah 2. Mae hefyd yn dangos bod cyfran yr oedolion 25 - 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn amrywio o 24.3% yng Nghwm Darran 1 i 53.8% yn Nhwyn Carno 1.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd cludiant fod yn rhwystrau mawr rhag mynd i addysg uwch. Mae angen cefnogi ac annog cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Absenoldeb mynych o'r ysgol

Mae absenoldeb mynych o ddisgyblion ysgol yng Nghwm Rhymni Uchaf yn amrywio o 3.7% yng Nghwm Darran 1 i 14.5% ym Moriah 3³⁰. (Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd)

5.2 Gwaith a sgiliau

Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith gweddus, gwerth chweil ac osgoi tlodi mewn gwaith.

Gweithgarwch economaidd/ anweithgarwch




Roedd 20,761 o drigolion 16-74 oed yng Nghwm Rhymni Uchaf ar adeg Cyfrifiad 2011³¹. O'r rhain, roedd 12,339 yn economaidd weithgar:

- Roedd 45.6% yn gyflogedig (49.5% yng Nghymru)
- Roedd 5% yn hunangyflogedig (8.6% yng Nghymru)
- Roedd 6.9% yn ddi-waith (4.3% yng Nghymru).

Roedd 8,422 o drigolion economaidd anweithgar yng Nghwm Rhymni Uchaf:

- Roedd 15.9% wedi ymddeol (16.1% yng Nghymru)
- Roedd 5.2% yn gofalu am eu cartref neu deulu (3.8% yng Nghymru)

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymini Uchaf

	<ul style="list-style-type: none"> Roedd 11.8% yn sâl neu'n anabl hirdymor (6.3% yng Nghymru) 																		
Sgiliau 	<p>Dangosir y lefel uchaf o gymwysterau ar gyfer trigolion Cwm Rhymini Uchaf yng Nghyfrifiad 2011 isod.</p> <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th></th> <th style="text-align: center;">Cwm Rhymini Uchaf</th> <th style="text-align: center;">Cymru</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Dim cymwysterau</td> <td style="text-align: center;">39.8%</td> <td style="text-align: center;">25.9%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1</td> <td style="text-align: center;">15.1%</td> <td style="text-align: center;">13.3%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 2</td> <td style="text-align: center;">15.8%</td> <td style="text-align: center;">15.7%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3+</td> <td style="text-align: center;">22.1%</td> <td style="text-align: center;">36.8%</td> </tr> <tr> <td>Prentisiaeth</td> <td style="text-align: center;">3.3%</td> <td style="text-align: center;">3.9%</td> </tr> </tbody> </table>		Cwm Rhymini Uchaf	Cymru	Dim cymwysterau	39.8%	25.9%	Lefel 1	15.1%	13.3%	Lefel 2	15.8%	15.7%	Lefel 3+	22.1%	36.8%	Prentisiaeth	3.3%	3.9%
	Cwm Rhymini Uchaf	Cymru																	
Dim cymwysterau	39.8%	25.9%																	
Lefel 1	15.1%	13.3%																	
Lefel 2	15.8%	15.7%																	
Lefel 3+	22.1%	36.8%																	
Prentisiaeth	3.3%	3.9%																	
Diwydiant cyflogaeth	<p>Yng Nghyfrifiad 2011 y diwydiant cyflogaeth mwyaf yng Nghwm Rhymini Uchaf oedd Gweithgynhyrchu ar 18.3% (10.5% yng Nghymru). Dilynwyd hyn gan Fasnach Cyfanwerthu a Manwerthu: Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur ar 14.6% (15.6% yng Nghymru) a Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol ar 13.9% (14.5% yng Nghymru)³².</p>																		

Prif safleoedd cyflogaeth	<p>Mae pum ystâd ddiwydiannol wedi'u lleoli yn ardal Cwm Rhymini Uchaf (Blaenau'r Cymoedd, Capital Valley, Maerdy, Bowen a'r Lawnt) a dau barc busnes (Lôn yr Angel a Pharc Satntes Margaret), sydd oll yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol gwerthfawr.</p>
----------------------------------	---

Nid Cwm Rhymini Uchaf yw'r unig un sydd â gorddibyniaeth ar y sector Gweithgynhyrchu, gyda darlun tebyg ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili a llawer o dde Cymru.

Mae pandemig Covid-19 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar batrwm cyflogaeth yn lleol, gyda'r effeithiau mwyaf yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Twristiaeth ac (i raddau) Adeiladu.

Bydd yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus yn gallu cynnig amrywiaeth o swyddi o safon mewn gwahanol sectorau, ac mae'r economi sylfaenol hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig (yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, megis ynni, bwyd a gofal iechyd, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wydnwch hirdymor yr economi leol). Bydd cael cyflogaeth o ansawdd da sy'n talu'n dda yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolyn.


Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â naw ardal awdurdod lleol arall yn Ne-ddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, trosoledd o £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae wyth sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen:

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymini Uchaf



Ffigur 4: Sectorau blaenoriaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd

6 Llesiant amgylcheddol



Ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd sy'n darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed peillio a storio carbon.

Mae'r hen ddiwydiannau mwyngloddio a haearn a'r safleoedd diwydiannol trwm cysylltiedig wedi cael effaith fawr ar dirwedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolwyd pyllau glo ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda deugain o byllau glo yng Nghwm Rhymini Uchaf yn unig erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu at etifeddiaeth iechyd gwael yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd yr 20fed Ganrif, yn dilyn cau'r holl byllau glo, cafodd llawer o weddillion y diwydiannau hynny eu hadennill neu eu symud a'u tirlunio i ddileu'r dystiolaeth weledol o orffennol diwydiannol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon o'r gorffennol yn

Un o'r heriau allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan fydd sicrhau bod y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn cysylltu â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bo'n briodol, fel bod yr ardal yn elwa cymaint â phosibl ar y buddsoddiad a'r twf economaidd a fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod.

dangos pwysigrwydd cynnal a gwella treftadaeth naturiol y Fwrdeistref Sirol, er mwyn gwella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd iachach i bobl leol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o'r safleoedd diffaith a halogedig sy'n weddill yn cynnwys tirweddau ecolegol pwysicaf y Fwrdeistref Sirol.

Mae glasu cymoedd De Cymru wedi bod yn drawsnewidiol – lle safai pennau pyllau glo a gweithfeydd mwyngloddio ar un adeg, mae parciau gwledig a choedwigaeth bellach yn cynnig amgylchedd gwyrdd ac iach sy'n denu miloedd o drigolion a thwristiaid bob blwyddyn. Mae'r dirwedd yn cael ei chynnal, ei gwarchod a'i gwella gan ffermwyr, mentrau a grwpiau, gan gefnogi systemau ecolegol cysylltiedig, bioamrywiaeth gyfoethog, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd a darparu'r bwyd ar ein platiau.

Mae'r amgylchedd byw naturiol yn arbennig yn helpu i godi llesiant meddwl pobl, yn ogystal â darparu campfa werdd am ddim i wella iechyd corfforol pobl. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynyddu hyd oes iach, lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, Diabetes math 2 ac osteoporosis.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo tirwedd eiconig a phobl Cymoedd De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol i gymunedau lleol a chenedlaethau'r

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

dyfodol. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfan yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd³³.

Wedi'i leoli yng nghanol Cwm Rhymni gyda mynediad hawdd o'r cymunedau cyfagos, mae **Parc Coetir Bargod** yn lle anarferol. Mae fel cefn gwlad, ond mae hyn yn cuddio ei orffennol diwydiannol. Mae hefyd wedi ei lunio gan y bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yma flynnyddoedd yn ôl ac mae'n dal i gael ei lunio gan y rhai sy'n byw yma heddiw. Wedi'i greu ar safle tri phwll glo a'i amgylchynu gan y cymunedau oedd yn gweithio ynddynt, mae Parc Coetir Bargod bellach yn lle i gerdded a chwarae.

Wedi'i guddio yng Nghwm Darran, mae **Parc Cwm Darran** yn barc gwledig heddychlon, prydferth sydd wedi ennill Gwobr y Faner Werdd. Mae'r harddwch hwn yn cuddio'i hanes fel safle hen waith glo Ogilvie. Er bod y rhan fwyaf o olion y bywyd blaenorol hwn wedi diflannu, mae ychydig o atgofion o'r gorffennol i'w darganfod o hyd. Mae Llyn Ogilvie hyfryd yn swatio ar waelod y dyffryn, wedi'i amgylchynu gan lan llyn hygyrch.

Wedi'i leoli ym mhen gogleddol Parc Cwm Darran, mae **Dolydd Cwmllwydrew** yn cynnwys dwy ddôl wair, dôl morgrug, dau bwll a choetir gwern bach. Mae'r Dôl y Morgrug yn gartref i dros 300 o forgrug y ddôl felen sy'n darparu pryd parod i'r gnozell werdd. Yma hefyd gellir gweld y glöyn byw glas cyffredin a'r glöyn byw ymyl perlog bach o ddechrau'r haf ymlaen.

Yn Nolydd y Pyllau, mae aur y gors yn blodeuo yn y gwanwyn gyda thegeirianau brych cyffredin a thamaid y cythraul yn doreithiog yn yr haf. Mae nadroedd y gwair, llyffantod a madfallod y dŵr yn byw o amgylch y pyllau. Os yw ymwelwyr yn lwcus, efallai y byddant yn cael cip ar dylluan wen yn hela fin nos am lygod pengrwn, a gwybedogion brith yn nythu yn y coetir.

Mae **Gwarchodfa Natur Genedlaethol Glaswelltiroedd Aberbargod** yn berl bioamrywiaeth o fewn coron bywyd gwyllt y Fwrdeistref Sirol. Mae'n ardal gadwraeth glaswelltir o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n gartref i boblogaeth fawr o frithion y gors a'r borfa o laswellt y gweunydd a'r borfa frwyn y mae'n dibynnu arni. Y Glaswelltiroedd oedd y Warchodfa Natur Genedlaethol gyntaf mewn lleoliad trefol yng Nghymru i gael ei dynodi a'r gyntaf yng Nghanol a Dwyrain y Cymoedd. Nid yn unig hynny, mae hefyd wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE, gan amlygu ei phwysigrwydd mewn cyd-destun Ewropeaidd.

Mae'r warchodfa'n cynnwys hen dir fferm nad yw erioed wedi'i reoli na'i ddraenio'n ddwys. Mae'n gymysgedd o fannau gwlyb a sych, hen wrychoedd, prysgwydd, coed a hen ddolydd yn orlawn o fywyd gwyllt gan gynnwys gweiriau a blodau prin, ffyngau, trychfilod, amffibiaid, mamaliaid ac ymlusgiaid. Mae yna ddigonedd o adar sy'n galw'r warchodfa'n gartref neu'n ei defnyddio fel cyrchfan gwyliau. Mae'r boblogaeth bwysig iawn o ieir bach yr haf britheg y gors i'w gweld yn hedfan ar draws y dolydd ar ddiwrnodau heulog yn ystod diwedd Mai a Mehefin.

Yn 2021, mewn partneriaeth a gefnogir gan y Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGC) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, cynhaliwyd cynllun peilot 'Presgripsiwn Natur' newydd, a fydd yn darparu ffordd ychwanegol ymlaen ar gyfer cefnogi cymunedau iechyd a llesiant drwy gysylltu trigolion â gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch.

Ffigur 5: Parc Cwm Darran

7 Llesiant diwylliannol

Mae diwylliant yn eang ac yn hollgynhwysol, yn cwmpasu credoau, arferion, nodweddion a hunaniaeth a rennir ac wedi'i ddiffinio gan bopeth gan gynnwys iaith, traddodiad, treftadaeth, normau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn dawns, cerddoriaeth a'r celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Mae diwylliant hefyd yn cael ei ddylanwadu gan bobl yn symud i ardal a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol, gan arwain at dwf yn niwylliant yr ardal.

Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan fawr o ddiwylliant Cymru gan lawer o bobl. Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg yng Nghwm Rhymni Uchaf yn amrywio o 12.9% yn Nhredegar Newydd 1 i 27.4% yn ardal Moriah 2. Mae gan 16 o'r 18 ACEHI yng Nghwm Rhymni Uchaf ffigur islaw cyfartaledd y Fwrdeistref Sirol (22.2%) ac mae'r ffigur ym mhob ACEHI yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (37.8%).

Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, gan ddangos dylanwad addysg Gymraeg yn yr ardal.

Atyniadau allweddol	Y Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd yw amgueddfa Bwrdeistref Sirol Caerffili, gydag arddangosfeydd diddorol ar hanes a threftadaeth leol, gweithgareddau ymarferol a rhaglen o ddigwyddiadau cyffrous. Mae'r peiriant weindio Fictoraidd yn cael ei chynnal gan dîm o wirfoddolwyr ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei rhedeg ar ddiwrnodau digwyddiadau arbennig a Gwyliau Banc.
----------------------------	--

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ddigon ffodus i feddu nifer fawr o sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n hanfodol i godi proffil y celfyddydau, denu ymwelwyr ac incwm ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol a darparu elfen gymdeithasol hanfodol i gymunedau lleol trwy gyfleoedd i bobl ddatblygu

eu sgiliau neu berfformio. Mae bron i 100 o grwpiau celfyddydol yn cyfarfod i ymarfer, datblygu, gwneud ac arddangos eu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o weithgareddau celfyddydol cymunedol sy'n mynd o dan y radar, megis prosiectau untro mewn ysgolion, clybiau ieuencid, grwpiau pobl hŷn, cynlluniau haf, addysg oedolion a chanolfannau cymunedol.

Celfyddydau Gweledol - mae gan y celfyddydau gweledol bron i 20 o grwpiau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, cerflunwaith, paentio, ffilm, gwneud printiadau a chrefftau. Mae grwpiau fel Cymdeithas Gelf Bargod wedi'u sefydlu ers dros 50 mlynedd ac mae aelodau'n cynhyrchu ystod amrywiol o waith.

Celf gyhoeddus - mae gan lawer o drefi a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol ddarnau dychmygus o waith celf cyhoeddus, gan gynnwys cerfluniau, mosaigau a murluniau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gydag ysgolion lleol, cymunedau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chynhyrchu gwaith celf sy'n cyfoethogi ac yn adlewyrchu hanes a diwylliant cymunedau lleol.

Ffigur 6: Celf gyhoeddus Pen Glöwr ym Margod

Mae enghreifftiau o gelfyddyd gyhoeddus yng Nghwm Rhymni Uchaf yn cynnwys y 'Twisted Simney' yn Llechryd, yr Angel Gwarcheidiol, Cennin Pedr a Phen Glöwr ym Margod, ac 'Ysbryd y Nant' yng Nglan-y-nant.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar waith celf cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda thua £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o'r fath. Mae cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn wedi dod oddi wrth y Cyngor, ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, gan gynnwys arian Ewropeaidd.

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth leol yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a llesiant cymunedol.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Mae Cwm Rhymni Uchaf yn gartref i amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau, gan gynnwys grwpiau geidiau a sgowtiaid; cymdeithasau pensiynwyr; corau meibion; cymdeithasau rhandiroedd a garddio; grwpiau hanes; cymdeithasau trigolion a phartneriaethau cymunedol.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig ers dechrau'r pandemig Covid-19, ac er bod cyfarfod ag eraill wedi bod yn anodd am gyfnod sylweddol o amser, mae'r clymau sydd wedi'u creu o fewn ein cymunedau wedi golygu bod unigolion bregus wedi cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac i gael hwyl mewn lleoliad anffurfiol. Heb i wirfoddolwyr roi o'u hamser er budd eu cymunedau lleol, ni fyddai'r un o'r clybiau a chymdeithasau a restrir uchod yn gallu bodoli.

Mae'r eglwysi a chapeli niferus yng Nghwm Rhymni Uchaf hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddoli, yn enwedig darparu clybiau cinio a dosbarthu bwyd i'r rhai mewn angen. Mae yna nifer o fanciau bwyd yng Nghwm Rhymni Uchaf sy'n darparu bwyd rhad iawn neu am ddim i'r rhai mewn angen neu ar incwm isel – mae'r rhain yn cynnwys Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau'r Rhosyn Gwyn, Neuadd Eglwys Santes Gwladys ym Margod, ac Eglwys Sant Dingad yn Nhredegar Newydd.

Mae manteision meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n helaeth. Trwy waith caled aelodau'r gymuned, mae llawer o glybiau a thimau chwaraeon yng Nghwm Rhymni Uchaf gan gynnwys pêl-droed, rygbi, criced, bowlio a seiclo. Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r manteision iechyd o fod yn gorfforol weithgar yna mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith merched ifanc, sydd fel arfer yn rhoi'r gorau i weithgareddau chwaraeon yn eu harddegau. Gall

ystod amrywiol o brofiadau plentyndod helpu i ennyn diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Yn bennaf, mae tirwedd naturiol Cwm Rhymni Uchaf wedi'i harosod gan nodweddion sy'n ymwneud â'r newid diwydiannol mawr a ddigwyddodd yn ardal De Cymru ar ddiwedd y 18^{fed} ganrif a dechrau'r 19^{eg} ganrif. Ceir nifer o enghreifftiau o dreftadaeth ddiwydiannol gynlluniedig, gan gynnwys tai gweithwyr haearn yn Drenewydd (1825-30). Mae'r rhain yn darparu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal, sy'n cael ei chydabod fwyfwy fel nodwedd unigryw o'r Fwrdeistref Sirol a Chymoedd De Cymru yn ehangach.

Mater allweddol o ran treftadaeth ddiwydiannol yr ardal yw ei diogelu ac, yn bwysicach fyth, cael ailddefnydd buddiol o'i hadeiladau. Bydd dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cadw.

O fewn Cwm Rhymni Uchaf mae cyfanswm o 40 **Adeilad Rhestredig** – mae'r term hwn yn cyfeirio at adeilad neu adeiledd arall sydd wedi'i ddynodi'n swyddogol fel un o arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig:

- Bargod – 5 x Gradd II a 2 x Gradd II* (Eglwys Sant Sannan a Chapel y Bedyddwyr ac Ysgoldy Heol Hanbury)
- Cwm Darran – 2 x Gradd II
- Tredegar Newydd – 4 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Tŷ Weindio ac Injan Glofa Elliot)
- Rhymni – 24 x Gradd II a 2 x Gradd II* (Eglwys Dewi Sant ac Eglwys y Bedyddwyr Penuel)

Ffigur 7: Capel Bedyddwyr Heol Hanbury ac Ysgoldy, Bargod

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Mae 9 **Heneb Gofrestredig** yng Nghwm Rhymni Uchaf – mae’r rhain yn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol gydag amddiffyniad cyfreithiol penodol rhag difrod neu ddatblygiad. Mae saith yng Nghwm Darran ac un ym Margod a Rhymni.

Ffigur 8: Heneb Gofrestredig Capel y Brithdir

Mae dwy **Ardal Gadwraeth** yng Nghwm Rhymni Uchaf – Drenewydd a Thref Rhymni. Mae’r term Ardal Gadwraeth bron bob amser yn berthnasol i ardal (trefol neu ganol pentref fel arfer) sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yr ystyrir bod ei chymeriad yn haeddu cael ei chadw neu ei gwella.

8 Yr hyn y mae ein trigolion wedi ei ddweud wrthym

Mae barn cymunedau ar sut y defnyddir adnoddau i ddiwallu eu hanghenion yn hanfodol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu darparu o fewn ac ochr yn ochr â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae pobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o asesu llesiant ein hardaloedd cymunedol, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gwent, hyd at osod yr amcanion a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Er mwyn casglu safbwyntiau cymunedol i gefnogi'r broses Asesu datblygwyd proses ymwneud cyson gan grŵp o weithwyr proffesiynol ymgysylltu a chyfathrebu o bob rhan o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Oherwydd yr anawsterau amlwg o ran gallu ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, arolwg ar-lein oedd y prif ddull o ymgysylltu. Roedd copïau papur hefyd ar gael mewn manau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a meddygfeydd. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer pob un o'r pum ardal gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan alluogi pobl i gyfrannu eu barn trwy drafodaethau grŵp. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg a chafodd gweithdai a grwpiau rhanddeiliaid eu rhestru i annog cymunedau a grwpiau i gymryd rhan.

Rydym wedi gallu dadansoddi barn trigolion o fewn yr ardaloedd cymunedol trwy god post a dadansoddiadau eraill, fel y gellir deall gwahanol ganfyddiadau o fewn ardal a'u cymharu â'r data yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn.

Yng Nghwm Rhymni Uchaf, teimlai ymatebwyr ar y cyfan yn gadarnhaol iawn am yr ysbryd cymunedol yn eu hardal, lle'r oedd pobl yn gyfeillgar ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud eu cymuned yn lle gwell i fyw. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn dilyn yr amrywiol gyfyngiadau cymdeithasol a osodwyd oherwydd y pandemig Covid-19, pan ddaeth llawer o gymunedau at ei gilydd i helpu'r rhai a oedd yn fwy agored i niwed ac yn llai abl i helpu eu hunain. Mynegwyd y teimlad ganddynt hefyd fod yr amgylchedd ehangach yn lanach ac yn fwy deniadol, gyda llawer o fannau gwyrdd a thirweddau hardd oherwydd natur y cymryd rheolaeth yn ôl yn dilyn dirywiad diwydiannol. Mae hyn yn rhoi mwy o ofod i bawb ei fwynhau ac yn helpu i wella iechyd meddwl

a chorfforol a dylid parhau i'w annog, efallai drwy ddatblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i lwybrau treftadaeth a theithiau cerdded yn lleol.

Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder am ddiogelwch yn eu hardal, ar ôl cael profiad o faterion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru gwyllt a chymryd cyffuriau mewn manau cyhoeddus fel parciau, er bod rhai wedi gweld mwy o bresenoldeb gan yr heddlu. Teimlwyd y gellid gwella hyn trwy gynyddu'r cyfleusterau a'r gweithgareddau ar gyfer cymunedau, megis canolfannau dydd, hybiau cymunedol a phrosiectau ieuencid. Byddai hyn yn helpu i roi ffocws i bobl ifanc ac yn helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n byw ar eu pen eu hunain.

Yn ogystal, gallai cymunedau helpu i wella eu hardaloedd trwy ffurfio grwpiau gwirfoddol i lanhau a chyflawni gweithgareddau fel sesiynau codi sbwriel yn eu hardal leol, gwneud defnydd o adeiladau segur a'u troi'n asedau cymunedol defnyddiol i annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau defnyddiol.

I rai ymatebwyr roedd y cyfleusterau cludiant cyhoeddus yn cael eu hystyried yn wael ac roedd hyn yn cael ei waethygu gan y teimlad nad oedd llawer o gyfleusterau a siopau lleol, na mynediad at gyfleusterau iechyd fel meddygfeydd ac ysbytai.

Gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o gyfleoedd i ymgysylltu er mwyn helpu i lywio penderfyniadau am wasanaethau a chyfleusterau yn eu hardal leol. Dywedwyd hefyd bod nifer o bobl â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned, ac argymhellwyd y dylid neilltuo rywun o'r gymuned leol i fynychu amrywiol gyfarfodydd o fewn gwahanol gymunedau, er mwyn helpu i roi adborth ar y problemau y mae pobl yn pryderu yn eu cylch ar hyn o bryd yn eu hardal leol.

Cynhaliodd y Rhwydweithiau Llesiant Integredig rywfaint o ddadansoddi ar y cyd â phartneriaid rhwydwaith yn ei feysydd ffocws ddiwedd 2020, a amlygodd fod y pandemig wedi gwaethygu llawer o'r anghydraddoldebau presennol mewn cymunedau, mewn meysydd fel iechyd meddwl a llesiant ac allgau digidol yn ogystal â nodi bod pobl yn manteisio fwyfwy ar y cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn eu tirweddau lleol.

Asesiad Llesiant Lleol Cwm Rhymni Uchaf

Cyfeiriadau

¹Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 , Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³ Cofrestr Treth y Cyngor CBS Caerffili, Rhagfyr 2021

⁴Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁵ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁶ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁷Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁸ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁹ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹⁰Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹¹Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹²Tabl Cyfrifiad 2011 KS204EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹³Tabl Cyfrifiad 2011 KS201EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS209EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁵ <https://www.zap-map.com/live/>

¹⁶MALIC 2019 Data Dangosydd Parth Mynediad i Wasanaethau, StatsCymru

¹⁷Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

¹⁸Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

¹⁹Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²⁰Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²¹Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²²Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²³Nifer y marwolaethau a chyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddyddiad cofrestru, cyfartaledd 3 blynedd, 2017-19, Mapiau Iechyd Cymru

²⁴Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²⁵Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd i wrywod/benywod ar enedigaeth yn erbyn Wardiau Cyfrifiad 2011 2009 i 2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁶Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁷Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

²⁸Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

²⁹Prisiau tai canolrifol fesul ward: Set Ddata HPSSA 37, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁰Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

³¹Tabl Cyfrifiad 2011 KS601EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³² Tabl Cyfrifiad 2011 KS605EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³³<https://valleysregionalpark.wales/>